Sut mae cysylltu â ni

Os bydd angen rhagor o gymorth neu gyngor arnoch wrth gwyno, gallwch gysylltu â ni yn:

Llinell Gymorth: 0345 015 4033
(Mae'r llinell gymorth ar agor rhwng 8.30am a 5.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio gwyliau cyhoeddus.)

Ffacs: 0300 061 4000

E-bost: phso.enquiries@ombudsman.org.uk

Gwefan: www.ombudsman.org.uk

Ein cyfeiriad yw:

Yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd / The Parliamentary and Health Service Ombudsman
Millbank Tower
Millbank
Llundain / London
SW1P 4QP

Nod a gweledigaeth yr Ombwdsmon yw darparu gwasanaeth annibynnol o safon ar gyfer ymdrin â chwynion, sy'n unioni camweddau unigol, yn hyrwyddo gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus ac yn sail i bolisïau cyhoeddus.

Gallwn hefyd ddarparu gwybodaeth, papurau ac adroddiadau mewn ystod o fformatau (megis print bras, print hawdd ei ddarllen neu Daisy) ac ieithoedd eraill yn ôl yr angen. Dywedwch wrthym sut yr hoffech chi i'r Ombwdsmon gysylltu â chi.

Ombwdsmon
Seneddol a
Gwasanaeth Iechyd

PHSO-0042 Tachwedd 2009

Ombwdsmon
Seneddol a
Gwasanaeth Iechyd

Cwyno i'r Ombwdsmon Seneddol

Beth mae'r Ombwdsmon Seneddol yn ei wneud?

Mae'r Ombwdsmon, Ann Abraham, yn darparu gwasanaeth i'r cyhoedd drwy gynnal ymchwiliadau annibynnol i gwynion bod adrannau ac asiantaethau llywodraeth y Deyrnas Unedig ac ystod o gyrff cyhoeddus eraill yn y DU wedi gweithredu'n amhriodol neu'n annheg, neu wedi darparu gwasanaeth gwael.

Rhaid i gwynion am sefydliadau'r llywodraeth gael eu cyfeirio at yr Ombwdsmon gan Aelod Seneddol. I gael gwybod pwy yw eich AS lleol, ewch i findyourmp.parliament.uk neu gysylltu â Swyddfa Wybodaeth Tŷ'r Cyffredin ar 020 7219 4272.

Nid yw'r Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion am gynghorau; yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol sy'n ymchwilio i'r rhain. Gellir cysylltu â'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol yn www.lgo.org.uk neu ar 0300 061 0614.

Cyn cysylltu â ni

Fel arfer, ni fydd yr Ombwdsmon yn derbyn cwyn oni bai eich bod wedi ceisio datrys y gŵyn gyda'r sefydliad dan sylw yn gyntaf, ac wedi cael ateb ganddynt. Mae'r Ombwdsmon yn credu y dylid rhoi cyfle i'r sefydliad ymateb a cheisio unioni pethau, lle bo hynny'n briodol, cyn iddi hi gamu i mewn.

Os byddwch chi'n dal yn anfodlon ar ôl cwblhau'r broses hon, dylech ofyn i AS gyfeirio'r gŵyn atom ni.

Mae ffurflen gwyno sy'n cynnwys yr holl wybodaeth y mae arnoch ei hangen i gwyno i'r Ombwdsmon ar gael yn www.ombudsman.org.uk neu ffoniwch ni ar 0345 015 4033 i ofyn am gopi.

Gwnewch yn siŵr bod unrhyw gŵyn yn ein cyrraedd cyn gynted â phosibl.

Pan fyddwn yn cael eich cwyn

Byddwn yn ysgrifennu atoch i gydnabod eich cwyn cyn pen dau ddiwrnod gwaith. Byddwn yn rhoi rhif cyfeirnod i chi, a dylech ddyfynnu'r rhif hwn bob tro y byddwch chi'n cysylltu â'r Ombwdsmon wedi hynny.

Y cam cyntaf a gymerwn yw edrych i weld a yw'r gŵyn yn un y gallwn ymdrin â hi, oherwydd ni allwn ymchwilio i gwynion os nad yw'r grym cyfreithiol gennym i wneud hynny. Nid oes gennych hawl awtomatig i ni ymchwilio i'ch cwyn, ond os byddwn yn penderfynu peidio â gwneud hynny, byddwn yn rhoi gwybod i chi pam ein bod wedi gwneud y penderfyniad hwnnw.

Rydym wedi ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi, a byddwn yn cysylltu â chi'n rheolaidd i roi gwybod i chi am yr hyn sy'n digwydd. Mae ein manylion cyswllt ar gefn y daflen hon.